Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Ein cyf / Our ref:

Dyddiad / Date: 20 Gorffennaf 2022

Annwyl Gyfarwyddwr,

**Ymweliad Archwiliad Gwelliant â Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Powys**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau'r Archwiliad Gwelliant ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Powys rhwng 9 a 13 Mai 2022.

Roedd yr Archwiliad Gwelliant yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod ein Harolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Medi 2020.

| Meysydd o welliant a nodwyd ym mis Medi 2020 | Cynnydd a nodwyd Mai 2022 |
|---|---|
| Sicrhau bod llais yr unigolyn yn amlwg yng nghofnodion gofal cymdeithasol pawb | Arwyddion o welliant |
| Rhaid i arferion gwaith cymdeithasol arwain at lesiant a chanlyniadau cadarnhaol i bobl | Arwyddion o welliant |
| Sicrhau bod gwasanaeth di-dor yn cael ei gynnal pan ddyrennir gweithwyr cymdeithasol gwahanol i bobl neu eu bod yn cael mewnbwn gan dimau gwahanol | Arwyddion o welliant |

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

0300 790 0126
agc@llyw.cymru

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Offices
Sarn Mynach
Llandudno Junction
Conwy
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebiaeth yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| | |
|---|---|
| Sicrhau bod y rhestr aros ar gyfer gofal a chymorth i oedolion yn cael ei rheoli’n effeithiol. | Arwyddion o welliant |

**Crynodeb o ganfyddiadau’r Archwiliad Gwelliant Mai 2022**

Yn ystod yr Archwiliad Gwelliant, canfuom fod cynnydd wedi'i wneud mewn sawl maes. Mae hyn wedi arwain at ddatblygiadau mewn ymarfer a gwell canlyniadau i bobl. Mae’r cynnydd hwn wedi’i gyflawni yn erbyn y cefndir o bwysau a heriau ychwanegol a osodwyd gan bandemig COVID-19.

Mae'r uwch-arweinwyr yn adnabod eu gwasanaeth yn dda. Un o gryfderau mawr o fewn yr awdurdod lleol yw argaeledd system rheoli ansawdd a pherfformiad gadarn. Archwilir yr wybodaeth hon gan uwch-reolwyr, y Prif Weithredwr ac aelodau arweiniol, a chyflwynir gwybodaeth berthnasol i'w hystyried gan y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet. Ar lefel weithredol, defnyddir gwybodaeth i lywio a datblygu meysydd ymarfer sydd angen eu goruchwylio a'u gwella o hyd, ochr yn ochr â darparu adborth i'r staff.

Mae gwasanaethau oedolion a phlant yn parhau i wynebu heriau sylweddol a waethygir gan gynnydd parhaus a sylweddol yn y galw ac anawsterau o ran recriwtio a chadw staff. Bu cynnydd ers yr arolygiad blaenorol o ran mynd i'r afael â sefydlogrwydd y gweithlu, ond mae heriau o hyd. “Mae uwch-arweinwyr yn cydnabod yn iawn, heb sefydlogrwydd yn y gweithlu, y bydd yn anodd cyflawni a chynnal ansawdd arfer cyson.” O ganlyniad, mae’r ymdrech i ddenu, recriwtio a chadw gweithlu medrus yn parhau.

Mae'r methiant i ddarparu gwasanaethau cymorth cartref yn gyson mewn modd amserol yn amlwg yn cael effaith ar ddarparu gofal a chymorth i rai o'r bobl ym Mhowys. Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i fonitro rhestrau aros ar draws gwasanaethau oedolion i gael mewnwelediad clir i amgylchiadau unigol pobl, nodi newidiadau mewn anghenion a gwerthuso lefelau risg. Rhaid i reolwyr sicrhau bod goruchwylio a chymorth rheolwyr o ansawdd uchel ar draws pob maes gwasanaeth. Dylai goruchwylio roi cyfle i fyfyrio personol a phroffesiynol, rhoi her adeiladol, a gosod cyfeiriad. Mae perfformiad gwael y System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn parhau i fod yn risg uchel i'r gwasanaeth, ac yn rhwystro gallu'r staff i ymgymryd â dyletswyddau wrth asesu a diweddaru gwybodaeth mewn modd amserol.

**Pobl**

Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n galed i ail-lunio ac ailgynllunio ei wasanaeth gyda ffocws ar wella'r ddarpariaeth o wasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar. Gyda gwaith partneriaeth effeithiol, mae hyn yn galluogi'r plant a'r teuluoedd i elwa ar gymorth a chefnogaeth gynnar ddwys. Mae'r cynnydd sylweddol yn y galw wrth y drws ffrynt yn parhau i greu pwysau digynsail ar ofal cymdeithasol oedolion a phlant ym Mhowys. Mae dangosfyrddau gwybodaeth yn rhoi trosolwg i reolwyr o'r gwaith o fewn eu timau unigol, gan sicrhau bod y ffocws yn parhau ar wella'r gwasanaethau a'r canlyniadau i bobl. Rhaid i'r

awdurdod lleol sicrhau bod goruchwyliaeth glir a dealltwriaeth gyson gan reolwyr o'r galw, capasiti, a blaenoriaethau gwaith i sicrhau bod canlyniadau i bobl yn cael eu cyflawni, yn enwedig pan adroddir am newidiadau i anghenion pobl. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd adolygu'r ffordd y mae'n cyfathrebu â phobl i sicrhau bod pobl yn cael gwybod sut mae'r awdurdod lleol yn rheoli blaenoriaethu yn ogystal â sut y gall pobl gysylltu â'r awdurdod lleol os bydd unrhyw newidiadau yn eu hamgylchiadau.

Gwelsom fod y rhan fwyaf o asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth yn adlewyrchu safbwyntiau a chryfderau pobl, ac yn ystyried risgiau perthnasol. Gwelsom o fewn asesiadau fod safbwyntiau'r unigolyn yn cael eu cofnodi'n glir, yn ei eiriau ei hun, ac mae hyn i'w ganmol, gan y gall gynrychioli barn yr unigolyn yn fwy cywir. Roedd hwn yn faes i'w wella o'n harolygiad blaenorol.

Roedd ansawdd cofnodion gofal cymdeithasol y bobl yn dda, ond dylid cymryd gofal i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n gyson. Yn y gwasanaethau oedolion a phlant, nid oedd yr holl feysydd asesu perthnasol yn cael eu cwblhau fel mater o drefn. Canfuom mewn rhai cofnodion gofal cymdeithasol nad oedd cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu diweddaru'n brydlon yn dilyn newidiadau mewn anghenion neu ofal a chymorth y bobl.

Clywsom am staff y gwasanaethau oedolion ym Mhowys yn cael trafodaethau agored a gonest â phobl am yr heriau o ddod o hyd i wasanaethau gofal yn y gymuned. Mae ymrwymiad strategol i hyrwyddo gofal a chymorth yn y cartref, ond nid oedd asesiadau/cynlluniau gofal cymdeithasol pobl bob amser yn glir ynghylch a oedd dymuniad yr unigolyn wedi cael ei ystyried cyn ystyried lleoliad mewn gofal.

Clywsom am yr heriau o ddod o hyd i ofal cartref i'r bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig. Gwelsom un unigolyn, a oedd yn ffafrio dychwelyd adref ar ôl cael ei dderbyn i'r ysbyty, yn symud i gartref gofal yn y tymor hir oherwydd diffyg yn y gwasanaethau sydd ar gael i ddiwallu ei anghenion gartref. Y bwriad oedd i'r lleoliad cartref gofal fod yn ateb dros dro, wrth aros am argaeledd gofal yn y gymuned. Clywsom hefyd am yr her o symud pobl ymlaen o wasanaethau tîm ail-alluogi a phontio mewnol i gymorth tymor hirach. Mae hyn yn effeithio ar ddatblygiad pobl i annibyniaeth yn ogystal â chyfyngu ar allu'r gwasanaethau hynny i gefnogi mwy o bobl. Felly, mae hyn yn cael effaith andwyol ar ddewis ac annibyniaeth pobl. Er bod yr heriau hyn yn cael eu rhannu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, rhaid i Gyngor Sir Powys sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i fonitro sefyllfa pobl pan fydd anghenion cymwys yn parhau heb eu diwallu.

Gwaethygir yr her i'r awdurdod lleol gan ei leoliad daearyddol, y boblogaeth sy'n gweithio sydd ar gael, y cynnydd yn y galw drwy ei ddrws ffrynt, a chyflwr presennol y farchnad ddarparwyr. Clywsom am rai darparwyr gofal cartref yn methu â pharhau i ddarparu gofal i bobl, ond fe'n sicrhawyd bod yr awdurdod lleol wedi gallu dod o hyd i drefniadau gofal amgen. Fodd bynnag, mae'n rhoi straen ar adnoddau sydd eisoes o dan bwysau. Gwelsom dimau gweithredol yn gweithio ochr yn ochr â'r tîm broceriaeth a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys i gynnal gwiriadau lles ar gyfer y bobl sy'n dal i aros am becyn gofal

cartref. Dywedwyd wrthym sut mae hyn yn helpu'r awdurdod lleol i nodi a yw amgylchiadau wedi newid.

Mae'r awdurdod lleol wedi nodi'r risg o angen nas diwallwyd oherwydd ôl-groniad o asesiadau ac adolygiadau oedolion gan fod y galw yn fwy na'r adnoddau staff sydd ar gael i'w cwblhau. Mae wedi comisiynu gwasanaethau ychwanegol megis therapi galwedigaethol ac wedi gweithredu cynllun gwaith i gefnogi lleihau nifer yr adolygiadau sydd heb eu cwblhau gan asiantaeth allanol. Nodwyd effaith bellach ar ddigonolrwydd yr adnoddau i gwblhau asesiadau ac adolygiadau lle'r oedd staff wedi'u hadleoli i gefnogi'r tîm sicrhau ansawdd craidd i gynorthwyo ymarferwyr i adolygu statws ffurflenni ar WCCIS i helpu i gwblhau gwaith sy'n mynd rhagddo.

Pan fydd pryderon am blant yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaethau plant, mae'r ymateb yn amserol ac yn briodol ar gyfer y rhan fwyaf o'r plant. Mae ystyried hanes plant yn ofalus, ynghyd â chasglu gwybodaeth gymesur, yn golygu bod y rhan fwyaf o blant yn cael y cymorth cywir cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, gwelsom mewn rhai achosion chwilfrydedd proffesiynol yn cael ei rwystro gan ddiffyg amser i fyfyrio ar y ffordd orau o gefnogi teuluoedd, a chopïo gwybodaeth o un adran asesu i un arall hefyd, a oedd yn cyfyngu ar y gallu i sicrhau bod dymuniadau pobl a’r canlyniadau a ddymunir ganddynt yn cael eu hadlewyrchu. Roedd y materion hyn eisoes wedi'u nodi gan yr awdurdod lleol drwy archwiliadau ac mae rheolwyr y gwasanaeth yn mynd i'r afael â nhw.

Mae gan yr awdurdod lleol ymagwedd ragweithiol at gynnig gwasanaethau yn Gymraeg (y Cynnig Rhagweithiol). Pennir dymuniadau iaith ddewisol pobl yn ystod y cyswllt cyntaf â gweithiwr cymdeithasol. Yn yr un modd, rhaid i’r awdurdod lleol sicrhau bod asesiadau ac adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth yn cael eu cynnal yn gyson drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â dewis pobl. Er enghraifft, roedd yn gadarnhaol gweld asesiadau yn cael eu cynnal yn Gymraeg pan y Gymraeg oedd iaith gyntaf yr unigolyn. Efallai y bydd yr awdurdod lleol am ystyried adolygu ei allu i ddarparu’r holl wasanaethau cymorth yn Gymraeg unwaith y bydd yr asesiad cychwynnol wedi’i gwblhau.

Deellir anghenion hunaniaeth unigol pobl yn dda, gan gynnwys rhywioldeb a rhywedd, safle plant o fewn eu grŵp teuluol, ac mewn perthynas â diwylliant, crefydd ac iaith. Yn asesiadau'r plant, gwelsom fod sensitifrwydd ynghylch materion amrywiaeth, a dealltwriaeth ac ymrwymiad i ddiwallu anghenion unigol trwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau pwrpasol perthnasol.

**Atal**

Yn y gwasanaethau plant, er bod proses ar waith mewn perthynas â throsglwyddo plant rhwng timau a gwasanaethau, canfuom enghreifftiau lle'r oedd y cymorth i rai teuluoedd yn rhy dameidiog. Roedd hyn yn golygu nad oeddent bob amser yn derbyn y gwasanaethau cywir ar yr amser cywir. Mae angen rhagor o waith i sicrhau gwasanaethau di-dor a

chydgysylltiedig sy'n atal anghenion rhag gwaethygu ac sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a theuluoedd.

Gwnaethom nodi bod tîm rhyddhau cleifion o'r ysbyty newydd, yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, wedi'i sefydlu'n ddiweddar. Mae'r tîm ysbyty pwrpasol hwn yn cefnogi trosglwyddiadau o Ysbytai Cyffredinol Ardal ac yn gweithio ochr yn ochr â phartneriaid iechyd i ymgorffori llwybrau rhyddhau i adfer ac yna asesu (D2RA) ym Mhowys.

Roedd hwn yn un o flaenoriaethau uniongyrchol yr awdurdod lleol a nodwyd yn ei Gynllun Adfer Gwasanaethau Oedolion 2022 ac mae'n cyd-fynd ag un o'i amcanion strategol allweddol i gefnogi pobl i drosglwyddo o'r ysbyty cyn gynted ag y bydd y bobl yn ddigon heini o safbwynt meddygol i wneud hynny. Nodwyd datblygiadau pellach gyda chyfleusterau gofal ychwanegol ledled y sir, gyda'r nod o fodloni'r galw yn y dyfodol a rhoi mwy o ddewis i bobl hŷn. Roeddent yn cynnwys, er enghraifft, gynllun tai gofal ychwanegol yn y Drenewydd a llety newydd sy'n cael ei ddatblygu yn y Trallwng, Ystradgynlais ac Aberhonddu ar gyfer pobl hŷn. Dywedwyd wrthym am gynlluniau ar gyfer datblygu dau gynllun gofal ychwanegol arall yn yr awdurdod lleol. Roedd ymarferwyr yn gweld y rhain fel camau cadarnhaol i ddarparu mwy o ddewis i bobl.

Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi buddsoddi mewn technoleg gynorthwyol yn y gymuned, fel roboteg i hybu annibyniaeth a llesiant pobl yn eu cartrefi. Mae hyn yn helpu lleihau'r galw ar adnoddau gofal, gan greu'r gallu i'w dyrannu i eraill sydd mewn angen, gan gynnig dewis i bobl.

**Llesiant**

O fewn gwasanaethau oedolion, roedd y rhan fwyaf o'r asesiadau a adolygwyd gennym yn seiliedig ar gryfderau, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn a'r canlyniad yr oedd yn dymuno ei gyflawni.

Darparodd adolygiad o gofnodion gofal cymdeithasol pobl a thrafodaethau ag ymarferwyr sicrwydd o ymateb amserol a chymesuredd i atgyfeiriadau diogelu oedolion. Wrth hyrwyddo diogelwch ar lefel unigol, canfuom yr ymarferwyr yn ceisio gwybod dymuniadau a theimladau'r unigolyn. Gwelsom rai enghreifftiau da o ddadansoddiad a rhesymeg gan yr ymarferwyr a oedd yn dangos dealltwriaeth o'r hyn oedd ei angen i helpu unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol. Roedd hyn yn wir yng nghofnodion yr oedolion ac yng nghofnodion y plant a adolygwyd gennym.

Yn yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad blaenorol, fe wnaethom nodi amrywiaeth yn ansawdd asesiadau'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, a chawsom sicrwydd bod uwch-reolwyr yn mynd i'r afael â hyn. Yn ystod yr archwiliad gwelliant hwn, gwelsom enghreifftiau da o asesiadau galluedd meddyliol a phenderfyniadau budd pennaf yn cael eu gwneud yn unol ag egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r cod ymarfer cysylltiedig. Mae hyn yn

cynnwys defnyddio eiriolaeth annibynnol i hybu llais pobl ac ystyried yr opsiynau lleiaf cyfyngol yn ystod y broses asesu a budd pennaf, mewn cydweithrediad â phartïon perthnasol. Mae hyn yn welliant ar yr arolygiad blaenorol.

Mae ymrwymiad i wella gwasanaethau i ofalwyr yng Nghyngor Sir Powys. Clywsom am gydweithio â Credu (partner strategol Powys ar gyfer cefnogi gofalwyr) i gynnal asesiadau llesiant ar gyfer gofalwyr ar y pwynt cyswllt cyntaf. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r awdurdod lleol ddeall ac ymateb yn brydlon i anghenion y gofalwyr a lleihau'r nifer o ofalwyr sy'n aros am asesiad. Gwelsom dystiolaeth o asesiadau gofalwyr yn cael eu cynnig sy'n adlewyrchu dymuniadau, cryfderau a chanlyniadau dymunol y bobl.

Mae taliadau uniongyrchol yn cael eu cynnig ym Mhowys i hybu dewis i bobl. Fodd bynnag, clywsom fod llwyddiant yn aml yn dibynnu ar y gallu i ddod o hyd i gynorthwywyr personol. Mae Cyngor Sir Powys wedi cyflwyno waled rithwir ar gyfer rheoli taliadau uniongyrchol yn ddiogel ar-lein, er mwyn ei gwneud yn haws i bobl eu gweinyddu.

Gwelsom enghreifftiau o arferion diogelu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau strategaeth a gofnodwyd, rheolaeth gadarnhaol o risg lle ceisiwyd safbwyntiau partïon perthnasol, a chanlyniadau wedi'u dogfennu'n glir. Maes arfer y gallai'r gwasanaethau oedolion feddwl am ei ystyried yw sicrhau ystyriaeth ehangach o gyd-destun yr unigolyn sy'n cynnwys yr holl bobl allweddol, er mwyn llywio'r cyfarfod strategaeth cychwynnol. Clywsom am rannu gwybodaeth yn amserol â'r heddlu a chyd-ddealltwriaeth o drothwyon risg. Yn y gwasanaethau oedolion, roedd y cynlluniau amddiffyn diogelu a welwyd o safon uchel.

Dywedodd uwch-reolwyr a staff wrthym fod WCCIS wedi parhau i fod yn broblem, gan arwain at anawsterau ac oedi wrth fewnbynnu a chael mynediad at ddata a gwybodaeth bwysig am bobl. Rhoddwyd llawer o enghreifftiau inni o fethiant parhaus yn y system, megis yn dilyn uwchraddiad cenedlaethol ym mis Hydref 2021, a arweiniodd at y system fod yn anweithredol am fwy na phythefnos. Dywedodd y staff ar draws y ddau wasanaeth fod problemau dyddiol gyda'r system, a oedd yn rhedeg yn hynod o araf, yn eu hatal rhag gweld gwybodaeth a chadw gwaith, ac yn eu hatal rhag cael mynediad i'r system o gwbl. Siaradodd y staff am sut mae'r heriau hyn yn cael effaith negyddol ar eu hysbryd. Mae'r rhain yn rhwystredigaethau gwirioneddol i'r staff gan y gallant weithiau amharu ar eu gallu i wneud eu gwaith yn effeithlon ac yn effeithiol.

Un o ganlyniadau'r cyfraddau uchel o swyddi gwag mewn timau yw gorddibyniaeth barhaus ar staff asiantaeth. Mae rheolwyr ar bob lefel yn treulio llawer o amser yn rheoli'r gwaith o flaenoriaethu gwaith o ddydd i ddydd, gan baru'r adnodd gwaith cymdeithasol cyfyngedig â'r gwaith mwyaf hanfodol. Mae rhaglen Tyfu ein Gweithwyr Cymdeithasol ein Hunain yn helpu i liniaru'r sefyllfa hon. Fodd bynnag, mae'r nifer fawr o weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yn dod â'i heriau ei hun. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso yn cael ei gefnogi a'i oruchwylio'n dda.

Mae'r prinder gweithwyr cymdeithasol oedolion a phlant yn cael ei gydnabod fel her i'r Deyrnas Unedig gyfan. Mae arweinwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf ar ôl sicrhau cyllid ychwanegol i recriwtio i feysydd fel y tîm rhyddhau cleifion o'r ysbyty, a ffocws parhaus ar raglen Tyfu ein Gweithwyr Cymdeithasol ein Hunain a therapyddion galwedigaethol. Er gwaethaf y gwelliannau hyn, mae uwch-reolwyr yn glir bod y daith wella ar draws y ddau wasanaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth fawr i'r awdurdod lleol. Gydag ymddiswyddiad diweddar y cyfarwyddwr statudol a thirlun gwleidyddol newydd, mae arweinyddiaeth a llywodraethu corfforaethol yn allweddol i sicrhau taith wella barhaus wrth ddarparu gofal cymdeithasol o fewn Cyngor Sir Powys.

**Partneriaeth**

Gwelsom fod aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn dangos perchnogaeth ac ymrwymiad i'r dull cydweithredol o welliant parhaus. Nodweddwyd hyn gan gynrychiolaeth ac ymgysylltiad cryf gan yr holl bartneriaid statudol ac anstatudol, yn ogystal â diddordeb mewn dysgu oddi wrth ei gilydd.

Clywsom am waith partneriaeth effeithiol gyda gweithwyr iechyd proffesiynol mewn perthynas â rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd ward rhithwir. Dywedodd un ymarferydd, er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion o'r ysbyty, ei fod yn teimlo bod yna *'ddull gyda'n gilydd'*. Mae lleoliad daearyddol Powys yn golygu ei fod yn gweithio gyda sawl bwrdd iechyd yng Nghymru a thros y ffin yn Lloegr. Mae hyn yn creu heriau ychwanegol oherwydd bod ysbytai wedi'u gwasgaru'n eang. Disgrifiwyd partneriaethau rhwng yr heddlu a'r gwasanaethau plant fel rhai cadarnhaol iawn gyda chyfeiriad cryf yn cael ei ysgogi gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Roedd cam-fanteisio ar blant yn faes penodol lle mae partneriaid yn cydweithio'n dda i ddatblygu a gweithredu newidiadau ymarfer. Nodwyd gennym fod datblygu a chyflwyno Strategaeth Camfanteisio ar Blant Powys yn faes o arferion da. Siaradodd cynrychiolwyr o'r heddlu a maes iechyd a gyfwelwyd am ddealltwriaeth ar y cyd o risg, a'u cyfrifoldebau i weithredu i helpu i amddiffyn plant.

Clywsom am waith partneriaeth amlasiantaeth da yng ngwasanaeth drws ffrynt ASSIST. Clywsom am waith partneriaeth effeithiol gyda theuluoedd, lle'r oedd staff yn cynnal cysylltiadau cyfathrebu da, gan sicrhau bod teuluoedd yn parhau i fod yn rhan o'r broses o asesu a chynllunio gofal.

Yng nghofnodion gofal cymdeithasol y bobl a adolygwyd, gwelsom dystiolaeth o ymarferwyr yn datblygu perthynas waith broffesiynol gyda'r bobl wedi'i seilio ar gydweithrediad a chyd-ddealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig. Clywsom am atebion creadigol sy'n cael eu harchwilio gan ymarferwyr i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i bobl, a oedd yn cynnwys defnyddio technoleg gynorthwyol megis roboteg i hybu annibyniaeth a llesiant pobl yn eu cartrefi.

**Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol i lywio ein canfyddiadau:**

**Gwaith maes**

Casglwyd y rhan fwyaf o dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl drwy adolygu ac olrhain eu cofnod gofal cymdeithasol. Gwnaethom adolygu 30 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain o leiaf deg.

Mae'r gwaith o olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys cael trafodaethau gyda'r unigolyn sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ofalwyr, y gweithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a gweithwyr proffesiynol eraill cysylltiedig.

Fe wnaethom gyfweld amrywiaeth o weithwyr yn yr awdurdod lleol.

Fe wnaethom gyfweld ag ystod o sefydliadau partner.

Fe wnaethom adolygu sampl o ffeiliau goruchwylio staff.

Fe wnaethom adolygu dogfennau ategol a anfonwyd at Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) at ddiben yr arolygiad.

**Diolchiadau**

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser ac a gyfrannodd at yr arolygiad hwn.

**Y camau nesaf**

Bydd AGC yn parhau i fonitro cynnydd yn erbyn y gwelliannau sydd eu hangen trwy weithgareddau monitro ac adolygu perfformiad parhaus.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygiad Awdurdod Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**